| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Iaith |
| **DYDDIAD** | 19/10/ 2021 |
| **PWNC** | Prosiect Gwarchod Enwau Lleoedd Cynhenid |
| **PWRPAS** | Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Prosiect yn rhoi diweddariad i'r Aelodau am waith y prosiect newydd. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr adroddiad a chynnig unrhyw sylwadau perthnasol. |

CEFNDIR

1. Ym mis Ebrill 2018, cyflwynwyd adroddiad drafft i'r Pwyllgor Iaith, oedd yn amlinellu cyfrifoldebau a phwerau'r Cyngor yn y maes enwi lleoedd.

2. Roedd yr adroddiad yn ffrwyth gwaith ymchwil a wneud mewn ymateb i bryderon gan aelodau'r Pwyllgor ar y pryd am Seisnigeiddio enwau neu fathu enwau newydd ar nodweddion daearyddol a thai.

3. Roedd dogfen bolisi drafft eisoes yn wedi ei chreu gan un o adrannau'r Cyngor oedd yn rhoi sylw i enwau tai a strydoedd, ond roedd awydd i edrych ar y maes yn ehangach ac i ystyried sut y gallem osod egwyddorion hefyd ar gyfer enwau pentrefi a nodweddion daearyddol. Roedd yr adroddiad felly yn ceisio rhoi darlun o'r sefyllfa gyfredol, ac o'r cyfrifoldebau a'r grymoedd oedd gan y Cyngor i weithredu yn y maes.

4. Rhoddwyd sawl awgrym gwerthfawr yn yr adroddiad am gamau y gellir eu cymryd, ac wrth dderbyn yr adroddiad rhoddodd y Pwyllgor Iaith ei hun yr argymhelliad canlynol:

   ***"Cytuno i barhau i weithio ar sail yr adroddiad er mwyn cael mwy o eglurder, yn enwedig o ran enwi nodweddion daearyddol a sut y gallwn ddylanwadu ar yr enwau a ddefnyddir gan gyrff allanol fel y Post Brenhinol a'r Arolwg Ordnans, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar unrhyw ddatblygiadau."***

5. O ganlyniad i'r maes gwaith hefyd yn cael ei adnabod fel maes blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor – mae'r Cynllun Gwella ar gyfer 2021/22 yn cynnwys Prosiect Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig o dan Flaenoriaeth Gwella 5, gyda'r nodyn esboniadol bod ***"gennym bryder fod enwau llefydd cynhenid Cymreig yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg***"- rydym hefyd wedi gallu sicrhau adnodd i weithio yn benodol ar y prosiect a chafodd Swyddog Prosiect ei benodi a chychwyn ar y gwaith ym mis Medi 2021.

6. Mae cynnwys yr adroddiad o 2108, ac argymhelliad y Pwyllgor Iaith erbyn hyn yn sylfaen i waith y Tîm Prosiect Enwau Lleoedd, ac mae'r adroddiad sydd yn cael ei gyflwyno yn rhoi amlinelliad o gyfeiriad y gwaith hyd yma.